SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Dogfen Bolisi / Policy Document

**Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Côd Ymddygiad**

**Comisiynydd Heddlu a Throsedd /**
**Dirprwy Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

## Crynodeb

Gosod y safonau o ymddygiad a ddisgwylir gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mabwysiadwyd y weithdrefn hon gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**Dyddiad Cymeradwyo: 13 Mai 2021** **Dyddiad Adolygu: 13 Mai 2025**

**Cynnwys**

**1. Cyflwyniad** ........ 2
**2. Llw'r Comisiynydd** ........ 3
**3. Goblygiadau cyffredinol** ........ 3
**3. Defnydd o adnoddau** ........ 3
**4. Cofrestr Buddiannau Datgeladwy** ........ 4
**5. Gwrthdaro Buddiannau** ........ 4
**6. Datgelu Gwybodaeth** ........ 5
**7. Tryloywder** ........ 5
**9. Cwynion** ........ 5
**10. Monitro** ........ 5
ATODLEN A: Buddiannau Datgeladwy (gan gynnwys rhai'n ymwneud ag Anrhegion a Lletygarwch… 6
ATODLEN B: Cofrestru anrhegion a lletygarwch........ 9

**1. Cyflwyniad**

1.1. Mae'r cod hwn yn berthnasol i mi yn fy swydd fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd pan fyddaf yn gweithredu neu'n cynrychioli yn y rôl honno. Mae hefyd yn berthnasol i fy nirprwy pan fydd yn gweithredu neu'n cynrychioli yn y rôl honno.

1.2. Nid yw'r cod hwn yn berthnasol pan fyddaf yn gweithredu mewn capasiti cwbl breifat.

1.3. Rydw i wedi mabwysiadu'r cod hwn ac wedi cytuno i gadw at ei ddarpariaethau.

1.4. Mae Protocol Plismona 2011 yn nodi y bydd pob parti yn glynu at y saith egwyddor a nodir yn y Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a adwaenir fel – Egwyddorion Nolan.

1.5. Rwy'n cytuno cadw at "Egwyddorion Nolan" a nodir isod:

**SAITH EGWYDDOR MEWN BYWYD CYHOEDDUS**

**ANHUNANOLDEB**
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu elwa mewn ffordd arall.

**UNIONDEB**
Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain mewn sefyllfa o rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i sefydliadau neu unigolion allanol a allent geisio dylanwadu ar y ffordd y maent yn perfformio'u dyletswyddau swyddogol.

**GWRTHRYCHEDD**
Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

**ATEBOLRWYDD**
Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.

**BOD YN AGORED**
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

**GONESTRWYDD**
Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

**ARWEINYDDIAETH**
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

**2. Llw'r Comisiynydd**

2.1 Yr wyf hefyd wedi tyngu'r llw canlynol:-

"Yr wyf i, Andy Dunbobbin trwy hyn yn datgan fy mod yn derbyn swydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Trwy wneud y datganiad hwn, rwy'n addo'n ddifrifol ac yn ddiffuant yn ystod fy nghyfnod yn y swydd:

Y byddaf yn gwasanaethu pawb yng Ngogledd Cymru fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Byddaf yn gweithredu gyda chywirdeb a diwydrwydd yn fy rôl ac, y byddaf, hyd eithaf fy ngallu, yn cyflawni dyletswyddau fy swydd i sicrhau y gall yr heddlu leihau trosedd a diogelu'r cyhoedd.

Byddaf yn rhoi llais i'r cyhoedd, yn arbennig dioddefwyr troseddau, ac yn gweithio gyda gwasanaethau eraill i sicrhau diogelwch y gymuned a chyfiawnder troseddol effeithiol.

Byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau tryloywder fy mhenderfyniadau, fel y bydd modd i'r cyhoedd fy nal yn hollol atebol.

Ni fyddaf yn ymyrryd ag annibyniaeth weithredol swyddogion yr heddlu."

**3. Goblygiadau Cyffredinol**

3.1 Yr wyf yn cytuno:

a) Y byddaf yn trin eraill gydag urddas a pharch

b) Na fyddaf yn bwlio nac yn aflonyddu ar unrhyw unigolyn

c) Na fyddaf yn ymddwyn mewn ffordd:-

i. sy'n groes i'r protocol plismona neu unrhyw ofyniad cyfreithiol arall perthnasol i'm swydd
ii. y gellid ei ystyried yn rhesymol fel ymddygiad sy'n dwyn anfri ar fy swydd.

ch) parchu amhleidioldeb swyddogion a pheidio â rhwystro nac ymyrryd ag unrhyw swyddog a allai fod yn cyflawni eu dyletswyddau dan y gyfraith

**4. Defnydd o adnoddau**

4.1 Rwy'n cytuno:-

a) I beidio â defnyddio adnoddau'r corff plismona lleol etholedig er budd personol i mi fy hun nac er budd mi fy hun, fy ffrindiau nac unrhyw unigolyn arall mewn perthynas ag unrhyw fuddiannau busnes sydd gennyf.

b) I beidio â defnyddio adnoddau'r Comisiynydd mewn modd amhriodol at ddibenion gwleidyddol (gan gynnwys at ddibenion plaid wleidyddol).

c) Na fyddaf ond yn hawlio treuliau a lwfansau yn unol â'r cynllun treuliau a lwfansau a gyhoeddwyd gan y corff plismona lleol etholedig.

**5. Cofrestr Buddiannau Datgeladwy**

*(gan gynnwys y rhai o natur ariannol)*

Rwy'n cytuno:-

a) I weithredu er budd y cyhoedd yn unig ac wrth gyflawni swyddogaethau fy swydd ac i beidio â gweithredu er mwyn ennill buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill i mi fy hun, fy nheulu, fy ffrindiau nac unrhyw unigolyn arall mewn perthynas ag unrhyw fusnes cysylltiedig â mi, ac na fyddaf yn defnyddio neu'n ceisio defnyddio fy swydd er mwyn manteisio neu anfanteisio unrhyw unigolyn, gan gynnwys mi fy hun.

b) Y byddaf, o fewn 28 diwrnod i ddechrau yn y swydd, yn nodi yn y gofrestr o fuddiannau datgeladwy, a gedwir gan swyddog monitro'r corff plismona lleol etholedig, pob budd datgeladwy yn unol â'r rhestr yn Atodlen A.

c) Y byddaf, o fewn 28 diwrnod i unrhyw newid mewn amgylchiadau, yn nodi yn y gofrestr buddiannau unrhyw newidiadau yn ymwneud â'r buddiannau datgeladwy.

ch) Y byddaf, o fewn 28 diwrnod i'w derbyn, yn cofrestru derbyniad bob anrheg neu letygarwch. (mae rhagor o wybodaeth am gofrestru anrhegion a lletygarwch i'w gweld yn Atodiad B)

d) Os yw natur y buddiannau o'r fath fel fy mod i a'r Swyddog Monitro yn ystyried y gallai eu datgelu arwain at i mi neu rywun cysylltiedig â mi fod mewn perygl o ddioddef trais neu fygythiadau, yna ni ddylai'r cofnod yn y gofrestr gynnwys manylion y budd ond yn hytrach y dylai nodi fod y budd wedi'i ddatgelu ond bod y manylion wedi'u hymatal yn rhinwedd yr adran hon.

dd) Os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch a ddylid ystyried rhywbeth yn fudd cofrestradwy ai peidio, dylid ymgynghori â'r Swyddog Monitro

**6. Gwrthdaro Buddiannau**

6.1 Mewn unrhyw achos lle gallai'r budd o arfer swyddogaethau fy swydd wrthdaro ag unrhyw fudd datgeladwy neu fudd arall sydd wedi dod yn hysbys i mi, byddaf yn datgelu gwrthdaro o'r fath cyn gynted â phosib fel sy'n ofynnol yn unol â'r polisi a gyhoeddir dan baragraff 3, Gorchymyn Corff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011, a phenderfynu a yw'r gwrthdaro yn ddigon sylweddol fel na ddylwn i'n bersonol gyflawni'r swyddogaeth.

6.2 Byddaf yn ystyried bod gwrthdaro buddiannau mor sylweddol fel na ddylwn gyflawni'r swyddogaeth yn bersonol os bydd yn diwallu'r amod isod:

a) Y byddai aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol yn ystyried yn rhesymol fod y budd mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o amharu ar fy ngallu i wneud y penderfyniad.

6.3 Os byddaf yn datgan gwrthdaro buddiannau, byddaf yn tynnu'n ôl o unrhyw drafodaeth neu benderfyniad parthed yr eitem dan sylw ac yn dirprwyo'r mater i'r Dirprwy Gomisiynydd

Heddlu a Throsedd. Os oes ansicrwydd ynghylch y gallu i ddirprwyo'r mater, byddaf yn ceisio cyngor y Swyddog Monitro. Pe bai'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd yn datgan gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r un mater, bydd yn ofynnol iddynt hwythau dynnu'n ôl a bydd y mater yn cael ei ddirprwyo naill ai i'r Prif Swyddog Ariannol neu i'r Prif Weithredwr (Swyddog Monitro).

6.4 Os digwydd y bydd gan y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd wrthdaro buddiannau mewn penderfyniad sy'n disgyn o fewn eu swyddogaethau dirprwyedig, dylid cyfeirio'r mater at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**7. Datgelu Gwybodaeth**

7.1 Rwy'n cytuno na fyddaf yn datgelu gwybodaeth a roddir i mi yn gyfrinachol na gwybodaeth y byddaf yn ei chael sydd o natur gyfrinachol, oni bai fy mod wedi cael caniatâd unigolyn sydd â'r awdurdod i roi'r caniatâd hwnnw, neu ei bod yn ofyniad cyfreithiol neu at ddibenion cyfreithiol fy swyddi mi wneud hynny, cyn belled nad wyf yn cael fy atal rhag datgelu'r wybodaeth i drydydd parti at ddibenion cael cyngor cyfreithiol proffesiynol a bod y trydydd parti yn cytuno i beidio â datgelu'r wybodaeth honno i unrhyw unigolyn arall;

7.2 Bydd unrhyw ddatgeliad y byddaf yn ei wneud yn rhesymol, er budd y cyhoedd ac yn ddidwyll.

7.3 Rwy'n cytuno i beidio ag atal unigolyn arall rhag cael mynediad i wybodaeth y mae gan yr unigolyn hwnnw hawl cyfreithiol i'w chael.

**8. Tryloywder**

Bydd y gofrestr buddiannau, anrhegion a lletygarwch yn cael ei chyhoeddi ar wefan y corff heddlu etholedig.

**9. Cwynion**

9.1 Bydd unrhyw gwynion am ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu cyfeirio at Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru,

Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Gwasanaethau Democrataidd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Ffôn: 01492 576061
E-bost: policepanel@conwy.gov.uk
Gwefan: http://www.nwpcp.org.uk

**10. Monitro**

10.1 Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Prif Weithredwr yn Mai 2025, neu os bydd unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth.

**ATODLEN A: Buddiannau Datgeladwy (gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud ag Anrhegion a Lletygarwch)**

Yn yr Atodlen hon:

Golyga "corff y mae gan yr unigolyn perthnasol fudd llesiannol ynddo" gwmni y mae'r unigolyn perthnasol yn bartner ynddo neu gorff corfforaethol y mae'r unigolyn perthnasol yn gyfarwyddwr ynddo, neu warantau'r corff y mae gan yr unigolyn perthnasol fudd llesiannol ynddo;

Mae "cyfarwyddwr" yn cynnwys aelod o bwyllgor rheoli cymdeithas ddiwydiannol a darbodus;

mae "tir" yn cynnwys hawddfraint, caethwasanaeth, budd mewn neu hawl dros dir sydd ddim yn cynnwys hawl i'r unigolyn perthnasol (ar ei ben ei hun neu ar y cyd â rhywun arall) feddiannu'r tir neu i gael incwm;

Golyga "corff plismona lleol etholedig" y Corff Plismona Lleol etholedig y mae'r unigolyn perthnasol wedi'i ethol iddo.

Golyga "cyfnod perthnasol" cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y dyddiad y bydd yr unigolyn perthnasol yn ychwanegu rhywbeth at, yn newid neu'n dileu rhywbeth o'r gofrestr buddion datgeladwy.

Golyga "unigolyn perthnasol" yr unigolyn/ion sydd wedi cael ei ethol/eu hethol neu ei benodi/eu penodi gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

Golyga "gwarantau" cyfranddaliadau, dyledebau, stoc dyledeb, stoc benthyg, bondiau, unedau o gynllun buddsoddi cyfunol yn ôl Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000(b) a gwarantau eraill o unrhyw ddisgrifiad, oni bai am arian a dalwyd i mewn i gymdeithas adeiladu.

| **Pwnc** | **Budd Datgeladwy** |
|---|---|
| Cyflogaeth, swydd, crefft, proffesiwn neu alwedigaeth | Unrhyw gyflogaeth, swydd, crefft, proffesiwn neu alwedigaeth a wneir am elw neu fudd. |
| Nawdd | Unrhyw daliad neu ddarpariaeth unrhyw fudd ariannol arall (oni bai am y corff plismona lleol etholedig) a wnaed neu a gafwyd o fewn y cyfnod perthnasol mewn perthynas ag unrhyw dreuliau a gyfyd wrth gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu Ddirprwy |

| | |
|---|---|
| | Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, neu tuag at dreuliau etholiad Comisiynydd neu Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw daliad neu fudd ariannol gan undeb llafar fel yn ôl Deddf (Cydgrynhoi) Undebau Llafur a Chysylltiadau Cyflogaeth 1992(a). |
| Contractau | Unrhyw gontract sy'n cael ei sefydlu rhwng yr unigolyn perthnasol (neu gorff y mae gan yr unigolyn perthnasol fuddiant llesiannol ynddo) a'r corff plismona lleol enwebedig -<br>(a) ac y mae nwyddau neu wasanaethau i'w darparu neu mae gwaith i'w wneud; ac<br>(b) nid yw wedi'i gyflawni'n gyfan gwbl |
| Tir | Unrhyw fuddiant llesiannol mewn tir sydd o fewn ardal y corff plismona lleol etholedig. |
| Trwyddedau | Unrhyw drwydded (ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill) i ddal tir yn ardal y corff plismona lleol etholedig. |
| Tenantiaethau Corfforaethol | Unrhyw denantiaeth lle (hyd y gwyddai'r unigolyn perthnasol)<br>(a) mai'r landlord yw'r corff plismona lleol etholedig; ac<br>(b) y tenant yw corff y mae gan yr unigolyn perthnasol fuddiant llesiannol ynddo. |

| | |
|---|---|
| Gwarantau | Unrhyw fuddiant llesiannol mewn gwarantau corff lle mae -<br><br>(a) mae gan y corff hwnnw (hyd y gwyddai'r unigolyn perthnasol ) leoliad busnes neu dir yn ardal y corff plismona lleol etholedig; ac<br><br>(b) naill ai -<br><br>(i) bod cyfanswm gwerth nominal y gwarantau yn fwy na £25,000 neu un rhan o gant o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau'r corff hwnnw, neu<br><br>(ii) os yw cyfalaf cyfranddaliadau'r corff hwnnw yn fwy nag un dosbarth, mae cyfanswm nominal cyfranddaliadau unrhyw ddosbarth y mae gan yr unigolyn perthnasol fuddiant llesiannol ynddo yn fwy nag un rhan o gant o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau'r dosbarth hwnnw. |
| Anrhegion a Lletygarwch | Buddion unrhyw unigolyn y mae'r unigolyn perthnasol wedi cael anrheg neu letygarwch ganddo. |
| Partïon | Cynhwyswch fanylion aelodau agos o'ch teulu sy'n gyflogedig gan HGC neu SCHTh, sy'n gyflogedig gan un o brif randdeiliaid, contractwyr neu gyflenwyr HGC neu SCHTh. Diffinnir aelod agos o'ch teulu fel plant a chymar yr unigolyn hwnnw, plant cymar yr unigolyn hwnnw, a dibynyddion yr unigolyn hwnnw neu gymar yr unigolyn hwnnw. |

**ATODLEN B: Cofrestr Anrhegion a Lletygarwch**

1.1 Fel rheol gyffredinol dylid gwrthod cynigion o anrhegion a lletygarwch yn gwrtais mewn modd nad yw'n peri tramgwydd nac embaras i'r sefydliad na'r unigolyn sy'n gwneud y cynnig.

1.2 Os yw derbyn anrheg neu letygarwch yn cael ei ystyried, dylid ymgynghori â'r Swyddog Monitro cyn gwneud y penderfyniad.

1.3 Wrth benderfynu a ddylid derbyn anrheg, dylid ystyried y pwyntiau canlynol:

Pam mae'r cynnig hwn yn cael ei wneud?

Beth yw'r amgylchiadau y tu ôl i hyn?

Ydy'r rhoddwr yn teimlo rheidrwydd i wneud y cynnig?

Beth mae'r rhoddwr yn ei ddisgwyl yn gyfnewid am hyn?

Beth allai'r canlyniad fod os derbynnir neu gwrthodir y cynnig?

A fyddai'r Comisiynydd yn fodlon cyfiawnhau i'r cyhoedd pam y derbyniwyd y rhodd?

1.4 Dylid cofrestru unrhyw anrhegion neu letygarwch. Dylid datgan os ydi gwerth yr anrhegion neu'r lletygarwch dan neu dros £25.

1.5 Rhaid hefyd cofrestru manylion y rhoddwr (er enghraifft yr unigolyn, cwmni neu gorff) sy'n cynnig yr anrheg neu'r lletygarwch.

1.6 Dim ond anrhegion a dderbyniwyd mewn perthynas â dyletswyddau swyddogol neu mewn perthynas â chyflogaeth y mae'n rhaid eu cofrestru. Nid oes rhaid cofrestru anrhegion neu letygarwch arall, megis anrhegion pen-blwydd gan deulu.

1.7 Rhaid cofrestru'r anrheg neu'r lletygarwch a'i roddwr o fewn 28 diwrnod o'i dderbyn.

1.8 Os na ellir darganfod gwerth yr anrheg neu'r lletygarwch, dylid ei gofrestru beth bynnag fel mater o arfer da.

1.9 Derbynnir y gellir derbyn anrhegion neu letygarwch heb gael eu cynnig neu rybudd ymlaen llaw ar rai achlysuron prin. Ble bynnag bosibl dylid eu dychwelyd yn ddiplomataidd neu eu gwrthod. Os nad yw hyn yn bosibl dylid cofrestru'r anrheg neu'r lletygarwch gan nodi ei natur, amcangyfrif o werth yr eitem a nodi'n glir beth oedd yr amgylchiadau y tu ôl i dderbyn yr eitem.

1.10 Os bydd anrheg neu letygarwch yn cael ei gynnig ond yna ei wrthod, dylid datgan y cynnig o anrheg neu letygarwch.